

From: Elizabeth Evans Elizabeth.Evans@ceredigion.gov.uk

Subject: Motion to Council

Date: 6 Mar 2023 at 11:12:45

To: Meirion Davies Meirion.Davies@ceredigion.gov.uk, Paul

Hinge Paul.Hinge@ceredigion.gov.uk

Cc: [REDACTED] Elizabeth Evans

Elizabeth.Evans@ceredigion.gov.uk

## Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor

O ystyried yr argyfwng sy'n wynebu'r rhwydwaith bysiau gwledig yng Ngheredigion a Chymru wledig, mae Cyngor Ceredigion yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu tasglu trafndiaeth wledig er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.

Rydym yn cydnabod nad yw trigolion ac ymwelwyr wedi dychwelyd i drafndiaeth gyhoeddus ar ôl Covid, yn y niferoedd y byddem yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, o ganlyniad i dynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn ôl oherwydd fforddiadwyedd, mae ein cymunedau'n cael eu hynysu'n gynyddol rhag cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu.

Mae tynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn gwaethygu tlodi gwledig lle mae'r effaith i'w deimlo fwyaf mawr. Mae gan oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, a'r rhai sydd heb drafndiaeth yr hawl i gael mynediad at drafndiaeth gyhoeddus yn eu cymunedau.

Mae Cyngor Ceredigion yn cefnogi ffocws Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Eto, drwy ofyn i drigolion symud o geir i drafndiaeth gyhoeddus, mae angen buddsoddi a'r cymhorthdal cysylltiedig ar gyfer isadeiledd trafndiaeth wledig.

Rhaid i drafndiaeth wledig gael ei drin yn gyfartal â'n trefi a'n dinasoedd mwy os ydym am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd o ddifrif, ac atal cymunedau gwledig rhag cael eu hynysu ymhellach.

Felly, mae'r Cyngor yn nodi:

1. Bod Cyngor Ceredigion yn gofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod bod angen buddsoddi mewn trafndiaeth mewn cymunedau gwledig, a'i sybsideiddio yn unol â hynny.
2. Bod trafndiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig fel y rhai yng Ngheredigion, sydd wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan danariannu trafndiaeth gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn am gydraddoldeb mynediad tebyg i gymunedau mwy.
3. Bpd tasglu trafndiaeth wledig yn cael ei sefydlu ar unwaith gan Lywodraeth Cymru ac ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol fel Cyngor Ceredigion, i fynd i'r afael â mater trafndiaeth wledig.

Cynigydd: Cynghorydd Meirion Davies



Eilydd: Cynghorydd Paul Hinge

